# Datganiad yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SJ244731068x i ben.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod y ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 28(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn").

Yn unol â'r erthyglau 28(1), 29(2) a 31(1) o'r Gorchymyn, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth Gwyliadwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid **SJ2447310683** a ddaeth i rym ar 20:30 ar 21 Chwefror 2022[2].

Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cynnal y mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn, ym mhob safle heintiedig yn y parth hwnnw. Yn unol ag erthygl 36(3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth hwnnw i ben.

Mae'r holl dermau a ddefnyddir yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Daw'r Datganiad hwn i rym am 15:30 ar 30 Mawrth 2022.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: am 14:45 ar 30 Mawrth Ionawr 2021

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd

Ceir copïau o'r Datganiad hwn ac o'r Gorchymyn ar wefannau Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

[1] Rh.S. 2006/2927 (Cy. 262).